Senedd Cymru
**Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru**

# Protocol Cyd-gadeirio

Gorffennaf 2023

senedd.cymru

# Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru – Protocol Cyd-gadeirio

## Rhagair y Cyd-gadeiryddion

**1.** Fel Cyd-gadeiryddion Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, ein rôl yw gwneud yn siŵr y gall y Pwyllgor gyflawni'r rôl bwysig o archwilio unrhyw fylchau a nodwyd ym mharatoad ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru, yn ystod pandemig Covid-19, a roddwyd i ni gan y Senedd.

**2.** Mae cyd-gadeirio yn drefniant newydd ar gyfer un o bwyllgorau'r Senedd, ac mae angen rhoi eglurder i aelodau'r Pwyllgor, staff, y Senedd, rhanddeiliaid, ac, yn bwysicaf oll, y cyhoedd. Yn unol â Rheol Sefydlog 35.3, mae'r protocol hwn yn nodi'r ffyrdd y cytunwyd arnynt o weithio mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion.

**3.** Wrth wneud hynny, mae'n dangos ein hymrwymiad ar y cyd i barchu ein statws cyfartal fel Cyd-gadeiryddion, ac i gydweithio'n effeithiol i gyflawni ein cyfrifoldebau a rennir.

## Cyflwyniad

**4.** Ar 24 Mai 2023, cytunodd y Senedd ar gynnig gan y Pwyllgor Busnes i benodi Cyd-gadeiryddion i Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

**5.** Roedd y cynnig yn nodi fel a ganlyn:

- Dylid dehongli cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at 'gadeirydd' pwyllgor i olygu "Cyd-gadeirydd";
- bod rhaid i swyddogaethau cadeiryddion pwyllgorau a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog gael eu harfer ar y cyd gan Gyd-gadeiryddion y Pwyllgor Diben Arbennig Covid;
- y dylai busnes cychwynnol Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ystyried y gweithdrefnau y mae'n bwriadu eu mabwysiadu i gyflawni'r dibenion y mae wedi'u sefydlu ar eu cyfer (gan gynnwys gweithredu'r trefniadau Cyd-gadeirio) ac argymell unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol i hwyluso ei waith.

**6.** Ar 5 Gorffennaf 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Busnes adroddiad yn nodi ei farn ar faterion gweithdrefnol ynghylch Cyd-gadeirio.

**7.** Derbyniwyd Rheol Sefydlog Dros Dro 35 gan y Senedd ar 12 Gorffennaf 2023 ac fe'i cynhwyswyd o dan Reol Sefydlog Dros Dro 35.3:

> *Rhaid i'r Cyd-gadeiryddion gytuno ar brotocol sy'n nodi eu ffyrdd o weithio ar y cyd, a'i gyhoeddi.*

**8.** Cytunwyd ar y protocol hwn rhwng y Cyd-gadeiryddion i ategu Rheol Sefydlog Dros Dro 35.3.

**9.** Yn sail i'r protocol hwn, mae'r egwyddor bod gan y ddau Gyd-Gadeirydd statws cyfartal, ac y byddant yn chwarae rhan lawn ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

### Absenoldeb Cyd-gadeirydd

**10.** Yn absenoldeb dros dro un – neu'r ddau – o'r Cyd-gadeiryddion, rhaid gwneud trefniadau ar gyfer penodi Cyd-gadeirydd dros dro ar gyfer pob Cyd-gadeirydd sy'n absennol, yn unol â Rheol Sefydlog Dros Dro 35.9.

**11.** Rhaid i unrhyw Gyd-gadeirydd Dros Dro a benodir yn eu habsenoldeb ddod o'r un grŵp gwleidyddol â'r Cyd-gadeirydd absennol.

**12.** Mae'r trefniadau a nodir yn y protocol hwn, hefyd, yn berthnasol i unrhyw Gyd-gadeirydd dros dro a etholir gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.22 a Rheol Sefydlog Dros Dro 35.9.

### Rhannu'r swyddogaethau Cadeirio

### Swyddogaethau y gall y naill Gyd-gadeirydd neu'r llall eu cyflawni yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Pwyllgor

- Mae pob Cyd-gadeirydd (a'r grŵp gwleidyddol y maent yn ei gynrychioli) yn cael ei gyfrif yn unigol wrth gyfrifo'r cworwm, yn unol â Rheol Sefydlog 17.31.

- Gall pob Cyd-gadeirydd fwrw ei bleidlais yn unigol mewn pleidlais a gynhelir o dan Reol Sefydlog 17.34 (ond gweler [adran berthnasol y protocol hwn] mewn perthynas ag arfer y bleidlais fwrw).

## Swyddogaethau Ffurfiol y gellir ond eu harfer gan – neu gyda chaniatâd – y ddau Gyd-Gadeirydd

**13.** Penderfynir ar weithrediad swyddogaethau gweithdrefnol ac ymarferol canlynol y Cyd-gadeiryddion drwy ddehongli'r Rheolau Sefydlog presennol, a chânt eu harfer gan – neu gyda chaniatâd – y ddau Gyd-Gadeirydd:

- Cyflwyno unrhyw gynnig i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu ei waith, oni bai bod y cynnig yn cael ei gyflwyno yn enwau'r ddau Gyd-gadeirydd.
- Penderfynu ar weithdrefnau'r pwyllgor, gan roi sylw i unrhyw gyngor a roddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17 [Rheol Sefydlog 17:23].
- Cynnal trefn ac ymddygiad Aelodau yn y pwyllgor (gan gynnwys cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r cadeirydd/cyd-gadeiryddion a'i gwneud yn ofynnol i aelodau dynnu'n ôl) [Rheol Sefydlog 17.25-27].
- Caniatáu i faterion yn ymwneud ag achosion llys gweithredol gael eu codi (sub judice) [Rheol Sefydlog 17.28].
- Rheoli cworwm y pwyllgor [Rheol Sefydlog 17.31-33].
- Cytuno ymlaen llaw ag unigolion nad ydynt yn aelodau i annerch y pwyllgor mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg [Rheol Sefydlog 17.45].
- Cynnal proses bleidleisio'r pwyllgor yn unol â'r gofynion yn y Rheolau Sefydlog (gan gynnwys mewn perthynas â defnyddio'r bleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20). [Rheol Sefydlog 17.34-39] At ddibenion pleidleisio, bydd y Cyd-gadeiryddion yn cael eu dehongli fel aelodau o'r pwyllgor yn eu rhinwedd eu hunain – er enghraifft, byddai pob un yn cyfrif yn unigol at ddiben cworwm, ac yn meddu ar eu pleidlais unigol eu hunain (yn ogystal ag arfer y bleidlais fwrw - lle bo angen – ar y cyd rhyngddynt yn unol â Rheol Sefydlog 6.20).
- Galw cyfarfod mewn wythnos pan nad yw'r pwyllgor yn eistedd [Rheol Sefydlog 17.46].
- Gohirio neu atal dros dro cyfarfod pwyllgor [Rheol Sefydlog 17.47].
- Galluogi eilydd i fod yn bresennol yn absenoldeb aelod o'r pwyllgor yn dilyn hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd [Rheol Sefydlog 17.48].

- Caniatáu i bobl nad ydynt yn aelodau o’r pwyllgor gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor (ond nid pleidleisio) [Rheol Sefydlog 17.49].
- Ei gwneud yn ofynnol i unigolyn sy'n cael ei wysio i roi tystiolaeth i gymryd llw neu gadarnhau [Rheol Sefydlog 17.52].
- Eithrio aelodau o'r cyhoedd os ydynt yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar neu afreolus [Rheol Sefydlog 32.3].

**14.** Os bydd y Cyd-gadeiryddion, yn ystod cyfarfod Pwyllgor, yn anghytuno ar arfer unrhyw un o’r pwerau ffurfiol uchod, mae’r Cyd-gadeiryddion wedi cytuno y byddant yn atal trafodion yn unol â Rheol Sefydlog 17.47 i’w galluogi i drafod a dod i gytundeb ar y camau priodol i’w cymryd.

## Gall swyddogaethau y gall Cyd-gadeiryddion gytuno arnynt fesul achos gael eu harfer gan un Cyd-gadeirydd ar ran y ddau.

**15.** Mae yna swyddogaethau ymarferol gan gadeirydd pwyllgor nad ydynt wedi’u nodi yn y Rheolau Sefydlog, ond sy’n rhan o weithrediadau dyddiol. Mae'r rhain yn swyddogaethau y bydd Cyd-gadeiryddion yn cytuno arnynt fesul achos, a gall un Cyd-gadeirydd eu harfer ar ran y ddau. Dyma nhw:

### Rheoli Cyfarfodydd

- Mae Cyd-gadeiryddion yn cytuno y bydd un Cyd-gadeirydd yn arfer swyddogaethau ymarferol 'rheoli cyfarfodydd' mewn perthynas â chyfarfodydd Pwyllgor gan gynnwys agor a chau cyfarfodydd, rheoli'r broses o alw tystion ac Aelodau i siarad.
- Ni fydd Cyd-gadeiryddion yn cadeirio’r un eitem o gyfarfod ar yr un pryd. Cyn cyfarfod Pwyllgor, bydd Cyd-gadeiryddion yn cytuno pa eitemau y bydd pob un ohonynt yn eu cadeirio, er mwyn sicrhau bod cynnwys y cyfarfod wedi’i rannu’n briodol.
- Fel arall, efallai y bydd Cyd-gadeiryddion yn dymuno cadeirio cyfarfodydd Pwyllgor am yn ail. Mewn unrhyw achos, bydd y Cyd-gadeiryddion yn rhoi gwybod i Glerc y Pwyllgor am eu trefniadau cyd-gadeirio dewisol cyn cyfarfod o’r Pwyllgor.

## Trefniadau cymeradwyo

- Bydd cyd-gadeiryddion yn cytuno ar y cyd i gymeradwyo'r holl bapurau/adroddiadau drafft i'w hystyried gan y pwyllgor, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r flaenraglen waith.

- Er mwyn osgoi oedi cyn cymeradwyo, mewn amgylchiadau lle nad oes un Cyd-gadeirydd ar gael, bydd y Cyd-gadeiryddion yn gwneud trefniadau i gymeradwyo'r cais yn unigol ac yn hysbysu Clerc y Pwyllgor.

## Cynrychioli'r Pwyllgor yn gyhoeddus

- Bydd Cyd-gadeiryddion yn dymuno cynrychioli Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid (gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru), digwyddiadau cyhoeddus a gweithgarwch ar y cyfryngau. Mae Cyd-gadeiryddion yn cytuno, os bydd un Cyd-gadeirydd yn arfer y swyddogaeth hon, y bydd yn trafod ymlaen llaw gyda'r Cyd-gadeirydd arall a chlerc y Pwyllgor, unrhyw linellau i'w dilyn neu ddeunydd briffio a ddarperir, sydd i'w gytuno gan y naill Gyd-gadeirydd a'r llall.

- Mewn achosion lle cytunir mai dim ond un Cyd-gadeirydd fydd yn cynrychioli'r Pwyllgor yn gyhoeddus, dylid hysbysu Clerc y pwyllgor ymlaen llaw. Bydd Cyd-gadeiryddion yn cytuno ymlaen llaw ar y llinellau y bydd y Cyd-gadeirydd sy'n bresennol ar ei ben ei hun yn ei gymryd yn ystod y gweithgareddau hyn.

- Bydd Cyd-gadeiryddion yn rhoi adborth i'w gilydd ar unrhyw gyfarfodydd y maent yn eu cael ag eraill (lle maent wedi cael caniatâd y Cyd-gadeirydd arall y byddant yn cynnal y cyfarfod ar eu pen eu hunain).

- Mae Cyd-gadeiryddion yn cytuno i beidio â gosod unrhyw beth ar eu cyfryngau cymdeithasol, neu wneud sylwadau cyhoeddus fel arall sy'n tanseilio – neu y gellid meddwl yn rhesymol eu bod yn tanseilio – gweithrediad effeithiol y trefniant Cyd-gadeirio.

## Ymgysylltu â'i gilydd a staff y Pwyllgor

- Bydd cyd-gadeiryddion yn ymgysylltu â'i gilydd a staff y Pwyllgor drwy linellau cyfathrebu clir ac amserol. Bydd Cyd-gadeiryddion yn trafod ac

yn cytuno ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r Pwyllgor, gan gynnwys rhannu gwybodaeth 'heb unrhyw syndod' a pharchu cyfrinachedd. Bydd cyd-gadeiryddion yn diweddaru ei gilydd ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor ac yn cynllunio'r camau nesaf gyda'i gilydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

- Bydd Cyd-gadeiryddion yn cyfarfod yn rheolaidd â Chlerc y pwyllgor i drafod gwaith y Pwyllgor, a threfnir cyfarfodydd rheolaidd i hwyluso hyn. Bydd Cyd-gadeiryddion yn cael yr holl friffiau a chyngor llafar ac ysgrifenedig gan staff y Pwyllgor ar y cyd.

**Gohebiaeth**

- Mae Cyd-gadeiryddion yn cytuno y bydd yr holl ohebiaeth allanol yn cael ei chymeradwyo gan y ddau Gyd-gadeirydd, oni bai y cytunir yn wahanol gan y Cyd-gadeiryddion (a'i hysbysu i Glerc y Pwyllgor) er mwyn peidio ag oedi wrth ymdrin â'r mater.

- Mewn achosion lle mae Clerc y Pwyllgor wedi derbyn cymeradwyaeth gan un Cyd-gadeirydd ac nid y llall, cymerir yn ganiatаol – oni bai bod y Clerc wedi derbyn gwrthwynebiad o fewn 48 awr i'r cais am gymeradwyaeth – fod yr ohebiaeth yn cael ei chymeradwyo.

- Bydd Cyd-gadeiryddion yn cytuno ar drefniadau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth yn ystod pob Toriad, y mae'n rhaid eu hysbysu ymlaen llaw i Glerc y pwyllgor.

**Cymryd rhan ym musnes y Cyfarfod Llawn yn rhinwedd swydd Cyd-gadeirydd**

- Bydd Cyd-gadeiryddion yn cytuno ymlaen llaw ar eu dull o gymryd rhan yn nadleuon y Cyfarfod Llawn ar adroddiad(au) y Pwyllgor a chyflwyno cynigion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor. Gall dulliau gweithredu gynnwys rhannu'r amser sydd gan Gadeiryddion i siarad mewn dadleuon, neu un Cyd-gadeirydd yn agor y ddadl a'r llall yn ei chau.

**Cyswllt â phwyllgorau eraill**

- Wrth gysylltu â phwyllgorau eraill (yn y Senedd a thu hwnt) bydd y Cyd-gadeiryddion yn ymdrin â hyn ar y cyd. Fodd bynnag, os na all un Cyd-gadeirydd fod yn bresennol mewn cyfarfod arall o Bwyllgor y Senedd,

dylai hysbysu'r Cyd-Gadeirydd arall, a thrafod a chytuno ar y llinellau y bydd y Cyd-Gadeirydd sy'n bresennol yn eu cymryd cyn y cyfarfod.

## Presenoldeb yn Fforwm y Cadeiryddion

- Gall Cyd-gadeiryddion fod yn bresennol yn Fforwm y Cadeiryddion, a byddant yn hysbysu ei gilydd o'u bwriad i fod yn bresennol ai peidio.

## Datrys anghydfodau

- Mae cyd-gadeiryddion yn gyfrifol am ddatrys unrhyw anghydfod rhyngddynt. Os oes angen, gall clerc y Pwyllgor roi cyngor a hwyluso trafodaeth i gynorthwyo gyda hyn.
- Os na all y Cyd-gadeiryddion ddod i gytundeb, gallant ymgynghori â'r Pwyllgor. Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn rhwymo'r Cyd-gadeiryddion.